# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 6 Mawrth 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:47** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, y Dirprwy Lywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Roedd Rhodri Glyn Thomas yn dirprwyo ar ran Jocelyn Davies, a anfonodd ei ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

### 3(i) Busnes yr wythnos hon

Ddydd Mawrth, bydd y Cyfnod Pleidleisio ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3(ii) **Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) **Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer yr eitem o fusnes a ganlyn:

**Dydd Mercher 28 Mawrth 2012**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi (60 munud)

Penderfynodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

## 4. Pwyllgorau

4(i) **Sesiwn i graffu ar waith y Prif Weinidog**

Trafododd y Pwyllgor Busnes a ddylai sefydlu pwyllgor a fyddai'n gyfrifol am graffu ar waith y Prif Weinidog. Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur gan yr ysgrifenyddiaeth cyn toriad y Pasg yn nodi'r opsiynau ar gyfer cylch gwaith y pwyllgor, ei faint a'r amseroedd cyfarfod arfaethedig. Bydd y mater yn cael ei drafod ymhellach yn ystod yr adolygiad 12 mis o strwythur y pwyllgor y tymor nesaf.

## 5. Deddfwriaeth

5(i) **Confensiynau gweithredu pwyllgorau wrth ystyried deddfwriaeth**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn nodi'r confensiynau a oedd ar waith ar gyfer gweithredu pwyllgorau deddfwriaeth y Trydydd Cynulliad.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylid defnyddio'r confensiynau diwygiedig yn y Pedwerydd Cynulliad, oherwydd bod y pwyllgorau pwnc perthnasol bellach yn craffu ar Filiau. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi adroddiad drafft ar y confensiynau diwygiedig i'r Pwyllgor Busnes ei gymeradwyo yr wythnos nesaf.

5(ii) Memoranda Cydsyniad a osodwyd mewn perthynas â Gorchmynion o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011

Nododd y Pwyllgor Busnes y ddau Femorandwm Cydsyniad a osodwyd mewn perthynas â'r Gorchmynion o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Cytunodd yr ysgrifenyddiaeth i hysbysu'r Rheolwyr Busnes pe bai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn penderfynu gwahodd pwyllgorau eraill i graffu ar y Gorchmynion.

**Busnes Arall**

Trafododd y Pwyllgor Busnes y posibilrwydd y bydd gweithredu diwydiannol ddydd Mercher 28 Mawrth 2012. Bydd yr ysgrifenyddiaeth yn paratoi papur ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Busnes yr wythnos nesaf yn nodi'r opsiynau os bydd gweithredu diwydiannol gan PCS.